

Gofynnwch am/Ask for **Deborah Weston**
Ein Cyf/Our Ref **DW/WM4**
Eich Cyf/Your Ref
Ffôn/Tel **01633 210631**
Rhif Uniongyrchol/Direct **01633 210631**
DX
E-bost/E-mail school.reorg@newport.gov.uk

Gwasanaeth Addysg
Education Service



Canolfan Ddinesig/Civic Centre
Casnewydd/Newport
De Cymru/South Wales
NP20 4UR

29 Mawrth 2022

Annwyl Randdeiliad

Addasu dyddiadau gweithredu'r cynnig i sefydlu ysgol gynradd Gymraeg ac adleoli Ysgol Gynradd Pillgwenlli.

Mae Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd wedi penderfynu addasu camau 2 a 3 cynnig ad-drefnu ysgolion a gymeradwywyd yn flaenorol mewn perthynas â sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Gymraeg newydd ac adleoli Ysgol Gynradd Pillgwenlli fel bod eu gweithrediad yn cael ei ohirio gan un flwyddyn galendr.

Er i'r ysgol newydd – Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli – agor yn ôl y bwriad ar safle dros dro yng Nghaerllion ym mis Medi 2021, mae oedi wrth drosglwyddo'r tir yn Whiteheads o Lywodraeth Cymru i'r datblygwr enwebedig ac yna i'r Cyngor yn golygu nad yw gwaith adeiladu mewn perthynas â'r ysgol newydd wedi dechrau eto. Mae amserlen waith ddiwygiedig yn awgrymu oedi gan un flwyddyn galendr mewn perthynas â'r prosiect adeiladu ysgol. O ganlyniad, ni fydd yr ysgol newydd yn barod i'w meddiannu tan fis Ionawr 2024.

Felly, mae'r cynnig wedi'i addasu fel bod:

- Ysgol Gynradd Pillgwenlli'n symud o'r safle presennol i adeilad wedi ei adeiladu o'r newydd ar ddatblygiad Whiteheads, gan gynyddu lleoedd disgyblion prif ffrwd o 546 i 630 a lleoedd ei Chanolfan Adnoddau Dysgu (CAD) o 10 i 20 o Ionawr 2024 yn hytrach nag Ionawr 2023 fel y penderfynwyd yn wreiddiol, ac;
- Wedi hynny, bydd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn trosglwyddo o'i safle dros dro yng Nghaerllion i leoliad parhaol ar safle ysgol bresennol Ysgol Gynradd Pillgwenlli o fis Medi 2024 yn hytrach na mis Medi 2023 fel y penderfynwyd yn wreiddiol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor yn: newport.gov.uk/addrefnuysgolion

Yn gywir

Sarah Morgan
Prif Swyddog Addysg
Chief Education Officer